Adolygu Datganiadau Polisi yn Gyson

Gorffennaf 2021

Rheoli ac Adolygu Fersiynau

Cymeradwywyd y fersiwn gyntaf hon o'r ddogfen **Adolygu Datganiadau Polisi yn Gyson** ar 1 Gorffennaf 2021 a'i chyhoeddi wedyn ar 14 Gorffennaf 2021.

Rydym yn adolygu ein polisïau yn gyson a chroesewir unrhyw adborth ar y datganiad polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau at polisi@cymwysteraucymru.org

Mae'r datganiad polisi hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Cyflwyniad

1. Byddwn yn adolygu ein datganiadau polisi rheoleiddiol sy'n ofynnol gan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf) yn gyson. **Mae Adran 47 (4) a (5)** y Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i Cymwysterau Cymru:

   (4) adolygu'r datganiadau a lunnir o dan yr adran hon yn gyson, ac os yw'n ystyried ei bod yn briodol o ganlyniad i adolygiad, lunio datganiadau diwygiedig; a

   (5) chyhoeddi unrhyw ddatganiad neu ddatganiad diwygiedig a lunnir o dan yr adran hon (47).

Cwmpas y polisi

2. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi datganiadau o'n polisi ar bynciau penodol ac adolygu'r datganiadau hyn yn gyson. Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â sut rydym yn adolygu'r datganiadau polisi canlynol yn gyson:

   - Polisi Cydnabod
   - Polisi Ymgynghori
   - Polisi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a Chymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig
   - Polisi Dynodi
   - Polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith
   - Polisi Darparu Gwasanaethau
   - Cynnal adolygiadau o gymwysterau a'r system gymwysterau
   - Polisi Cosbau Ariannol
   - Polisi Capio Ffioedd
   - Polisi Amodau Trosglwyddo

3. Yn ogystal â'n cylch gwaith i adolygu datganiadau polisi fel y'u cwmpesir gan y Ddeddf, byddwn hefyd yn gweithio gyda ffrydiau gwaith perthnasol i adolygu datganiadau polisi eraill yn gyson, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cynnwys yn ein Rhestr o Ddogfennau Rheoleiddio.

Pwrpas adolygiada polisi

3. Trwy adolygu **polisïau** rheoleiddiol[1] ein nod yw sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfoes, yn berthnasol, yn ddefnyddiol ac yn addas i'r diben.

Egwyddorion cynnal adolygiadau

4. Wrth gynnal adolygiadau o bolisïau rheoleiddiol, byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r prif nodau a nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015, sef:

   (a) sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; a

   (b) hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

5. Byddwn hefyd yn rhoi sylw dyledus i'r wyth mater yn y Ddeddf.

6. Wrth adolygu polisïau rheoleiddiol, byddwn hefyd yn ystyried y cyd-destun polisi cenedlaethol yr ydym yn gweithredu ynddo a deddfwriaeth berthnasol fel Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Cyfraith Cydraddoldeb, cyfreithiau Diogelu Data a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7. Wrth adolygu polisi, byddwn fel arfer yn ystyried y canlynol:

   (a) newidiadau neu ddatblygiadau diweddar gan gynnwys strategaethau, dulliau gweithredu a diweddariadau deddfwriaethol perthnasol;

   (b) cydraddoldeb y polisi ac i ba raddau y mae'n parhau'n berthnasol ac yn gyfoes;

   (c) sut mae'r polisi wedi'i weithredu ers ei gyhoeddi ddiwethaf ac unrhyw wersi a ddysgwyd;

   (d) effeithiolrwydd y polisi o ran cyflawni ei nodau arfaethedig;

   (e) sicrhau bod y polisi'n parhau i gyflawni ein prif nodau, canlyniadau rheoleiddiol ac egwyddorion rheoleiddio da e.e. ei fod yn dryloyw, yn

[1] Pan fyddwn ni'n defnyddio'r term 'polisïau', rydym yn golygu hyn i gynnwys adolygiadau o'r holl ddogfennau rheoleiddiol – polisïau, gweithdrefnau, amodau a meini prawf sydd wedi'u cynnwys yn y Rhestr o Ddogfennau Rheoleiddio yn ogystal â dogfennau rheoleiddiol eraill.

atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'i dargedu; ac

(f) effaith polisïau rheoleiddiol ar gyrff dyfarnu, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill.

9. Fel arfer, bydd ystyriaethau sy'n benodol i bolisi i'w hadolygu a fydd yn dibynnu ar natur a chyd-destun y ddogfen sy'n cael ei hadolygu.

10. Wrth adolygu polisi, efallai y byddwn yn ceisio adborth gan ddefnyddwyr y polisi. Gallai'r rhain fod yn fewnol neu'n allanol. Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol, ond ni fwriedir iddynt fod yn gynhwysfawr:

(a) eglurder, cywirdeb a chyflawnrwydd y polisi;

(b) ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r polisi; ac

(c) unrhyw newidiadau y mae defnyddwyr y polisi yn credu y byddent yn ychwanegu gwerth at y polisi.

Mathau o ddiwygiadau

11. Mae llawer o wahanol resymau pam y gallai fod angen diwygio polisi. Dyma enghreifftiau:

(a) **Wedi eu trefnu** - gall diwygiadau ddeillio o adolygiad wedi'i drefnu a'i gynllunio o bolisi a gall hyn gynnwys diweddariadau a newidiadau cymharol syml gan gynnwys newidiadau cyflwyniadol sydd eu hangen i gynnal cyfredoldeb ac effeithiolrwydd y polisi. Mewn rhai achosion, gall adolygiad ddod i'r casgliad na wneir unrhyw newidiadau arwyddocaol nac unrhyw newidiadau.

(b) **Heb eu trefnu** – efallai y bydd achosion sy'n sbarduno'r angen i adolygu polisi nad oedd wedi'i drefnu na'i ragweld. O ganlyniad, bydd natur a graddfa'r diwygiadau sydd eu hangen yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol.

(c) **Canlyniadol** – Gall gwneud diwygiadau i un ddogfen reoleiddiol fod â goblygiadau i ddogfennau cysylltiedig eraill ac felly o ganlyniad i gynnal adolygiad o un polisi, gallwn wneud diwygiadau canlyniadol i ddogfennau polisi rheoleiddiol eraill.

(d) **Seiliedig ar brosiect** – Yn seiliedig ar newidiadau i gymwysterau neu'r system gymwysterau sy'n codi oherwydd ymgynghoriadau, neu ddiwygiadau i gymwysterau, neu ddulliau rheoleiddio sy'n esblygu, mae

angen i ni wneud diwygiadau i bolisïau rheoleiddiol er mwyn sicrhau bod cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn parhau i fod yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr.

12. Mae amgylchiadau eraill a ragwelwn a allai sbarduno adolygiad polisi yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

    (a) adborth gan ddefnyddwyr y polisi e.e. angen busnes, nodi bylchau;

    (b) deallusrwydd, ymchwil neu wybodaeth fonitro;

    (c) canlyniadau ymgynghoriad;

    (d) newidiadau/diweddariadau i ddeddfwriaeth; a

    (e) cyflwyno trefniadau rheoleiddiol eithriadol neu dros dro.

Cylch adolygu polisi

13. Rydym yn adolygu ein polisïau yn gyson ac yn croesawu adborth arnyn nhw ar unrhyw adeg. Rydym yn annog adborth yn y dogfennau eu hunain ac yn cynnwys adran Hanes Fersiwn i ddangos i ddefnyddwyr y polisïau pryd y cawsant eu creu a'u hadolygu.

14. Rydym yn cynnal offeryn gweinyddol i olrhain pryd y cyhoeddwyd polisïau a phryd y disgwylir iddynt gael eu hadolygu nesaf.

15. Rydym yn paratoi cynllun bob blwyddyn i nodi'r polisïau yr ydym am eu hadolygu o fewn y cylch hwnnw. Mae ein gwaith cynllunio yn ystyried natur y ddogfen, y dirwedd yr ydym yn gweithredu ynddi a'r adnoddau sydd ar gael i ni.

16. Bydd sut rydym yn adolygu pob polisi a'r amser y bydd yn ei gymryd yn dibynnu ar natur y ddogfen reoleiddiol benodol honno a'r hyn sy'n ofynnol i gynnal ei heffeithiolrwydd. Mae'r canlynol yn rhoi syniad o'n dull o amserlennu polisïau ar gyfer adolygu:

Math o bolisi	Cyfnod adolygu	Sail resymegol ar gyfer adolygu
Dogfennau polisi newydd	Blwyddyn ar ôl ei ddyddiad dod i rym	Caiff fersiwn 1 o'r polisi ei wirio os yw'n addas at y diben
Polisïau Rheoleiddiol	Bob 3 – 5 mlynedd	Yn seiliedig ar risg, blaenoriaeth a diwygiadau canlyniadol.
Amodau	Bob 5 mlynedd neu yn ôl yr angen	Mae'r amodau'n nodi'r prif ofynion ar gorff dyfarnu ac felly mae angen eu hadolygu'n gyson yn ogystal â chael amser i'w hymgorffori i hybu hyder yn y system. Fel rhan o'r adolygiad, efallai y byddwn o'r farn nad oes angen unrhyw newidiadau.
Gweithdrefnau	Bob 3 blynedd fel arfer (ond yn amlach lle bo angen e.e. mae gweithdrefnau penodol ar waith yn ystod haf 2021)	Mae tair blynedd yn caniatáu amser i weithdrefnau gael eu gweithredu a'u hymgorffori.

17. Mae hyn yn ddangosol yn unig ac efallai y bydd angen diwygio polisïau rheoleiddiol wrth i amgylchiadau godi. Bydd newidiadau rhwng cyfnodau adolygu polisi yn dibynnu ar amseriad adolygiadau, yr adnoddau sydd ar gael ac arwyddocâd y newidiadau. Efallai y bydd amgylchiadau hefyd pan fydd polisïau'n cael eu tynnu'n ôl neu'n dod i ddiwedd eu hoes cyn y cyfnod adolygu a drefnwyd.

Dulliau ar gyfer adolygu polisïau

18. Rydym yn defnyddio ystod o ddulliau wrth adolygu polisi, a bydd ein dull gweithredu yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau e.e. yr amgylchiadau ar gyfer cynnal yr adolygiad, y math o bolisi, yr amserlen a'r gyllideb sydd ar gael. Mae'r dulliau posibl ar gyfer adolygu polisïau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

    (a) adolygiadau llenyddiaeth neu ddadansoddiad dogfennol;

    (b) arolwg neu holiadur;

    (c) cynadleddau, seminarau, gweminarau a gweithdai;

    (d) cyfweliadau, cyfarfodydd, trafodaethau gydag unigolion neu grŵp neu mewn bwrdd/pwyllgor;

    (e) Grwpiau Gorchwyl a Gorffen neu weithgorau;

(f) comisiynu arbenigwyr pwnc neu ymgynghorwyr;

(g) arferion gorau neu waith cymharu neu feincnodi arall; a/neu

(h) Ymgynghori.

Cymeradwyaeth fewnol

19. Pan wneir newidiadau digon sylweddol i ddogfennau polisi rheoleiddiol yn dilyn adolygiad, cânt eu cyflwyno i Fwrdd / pwyllgor priodol Cymwysterau Cymru (os oes angen) i'w cymeradwyo, cyn eu cyhoeddi yn unol â'n Cynllun Dirprwyo.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

20. Pan fyddwn yn cynnig newidiadau sylweddol i'n fframwaith rheoleiddiol neu reolau, neu newidiadau i bolisïau rheoleiddiol sy'n debygol o lywio darpariaeth yn y dyfodol neu sy'n debygol o gael effeithiau ariannol sylweddol ar gyrff dyfarnu, yna byddwn yn cwblhau asesiad effaith rheoleiddiol yn unol â'n canllawiau.